Ysgol Treganna

ysgoltreganna.cymru
029 2059 0830

ysgoltreganna@caerdydd.gov.uk
@YsgolTreganna

# Llawlyfr y dosbarth Derbyn

Medi 2025



**Oriau Ysgol**

Derbyn
09:00–15:20

Bydd giatiau'r Derbyn yn agor am 08:50.






**Staff Yr Adran**



**Mrs Elin James**
Arweinydd
yr Adran



**Mrs Catrin V Smith**
Athrawes
Dosbarth Bedwyr



**Mrs Siân Healan**
Athrawes
Dosbarth Mabon



**Miss Elin Evans**
Athrawes
Dosbarth Olwen

**Cymunedau Dysgu**

Ar ddechrau'r dosbarth Derbyn fe fydd pob plentyn yn perthyn i ddosbarth derbyn a chymuned ddysgu.

**Mabon – Cymuned Pwyll**
**Olwen – Cymuned Branwen**
**Bedwyr – Cymuned Manawydan**

Mae gan bob cymuned ddysgu arweinydd sydd yn gyfrifol am ofal bugeiliol disgyblion eu cymuned.


**Cymuned Pwyll**
**Mrs Erwain Alaw**

**Cymuned Branwen**
**Mrs Emsyl Llwyd**


**Cymuned Manawydan**
**Mrs Marged Miles Farrier**



**Gollwng**




**Casglu**



## Trefn y dydd

**Cyrraedd**
Amser carped a chofrestru

**Sesiwn 1**
Tasgau ffocws a darpariaeth barhaus
Amser chwarae

**Sesiwn 2**
Tasgau ffocws a darpariaeth barhaus
Amser Cinio
Sesiwn Meddwlgarwch

**Sesiwn 3**
Tasgau ffocws a darpariaeth barhaus
Amser Chwarae

**Sesiwn 4**
Tasgau ffocws a darpariaeth barhaus

**Sesiwn 5**
Stori, llaeth a ffrwyth canu a pharatoi i fynd adref





Gofynnwn yn garedig i chi yrru e-bost i'r ysgol gyda threfniadau casglu arferol eich plentyn ar ddechrau'r tymor.

Os oes unrhyw newid i drefniadau casglu eich plentyn gofynnwn i chi hysbysu'r ysgol yn ysgrifenedig.

ysgoltreganna@caerdydd.gov.uk

Gofynnwn i chi ddefnyddio enw eich plentyn fel pwnc i'r e-bost.

Defnyddiwch yr e-bost yma i hysbysu yr ysgol am absenoldebau eich plentyn:

tregannad@hwbcymru.net

## Gwisg Ysgol

Gofynnwn i'r disgyblion wisgo gwisg ffurfiol yr ysgol. Gallwch brynu gwisg ysgol yn siop YC Sports neu archebu ar lein o Cardiff Embroidery.

Gallwch brynu'r crys t ymarfer corff o'r siopiau yma hefyd.

*Bydd y diwrnod yma yn cael ei gadarnhau ym mis Medi.*

**Cofiwch labelu popeth** – dillad , cotiau, esgidiau a bagiau.



## Cinio

Mae modd archebu cinio ar **Parent Pay**. Gwelwch y fwydlen ar yr ap.

**Rhowch wybod am unrhyw anghenion diet arbennig ar gyfer eich plentyn, e.e. llysieuwr/fegan, dim glwten, dim llaeth.**

**Bocsys Bwyd**
Os ydych am ddarparu pecyn bwyd ar gyfer eich plentyn, hoffem eich annog i gynnwys bwydydd iach, ac i osgoi unrhyw gynnyrch cnau.

## Byrbryd

Yn ddyddiol rydym yn paratoi byrbryd iachus a ffres yn y dosbarth i fwyta gyda'n llaeth. Gofynnwn am gyfraniad o **£1** yr wythnos tuag at y gost.

Mae'n bosib talu am y byrbryd trwy **Parent Pay**.

## Absenoldebau
A fyddech gystal â gadael i ni wybod os yw eich plentyn yn sâl neu'n mynd i fod yn hwyr am unrhyw reswm meddygol. A wnewch chi roi gwybod i ni drwy alwad ffôn neu e-bost. Petai eich plentyn yn dioddef o ddolur rhydd neu'n chwydu mae'n bwysig i'w g/chadw i ffwrdd o'r ysgol am gyfnod o 48 awr ar ôl y digwyddiad olaf. Diolch am eich cydweithrediad.

## Salwch
Os bydd eich plentyn yn sâl yn ystod oriau'r ysgol, fe fyddwn yn cysylltu â chi er mwyn i chi ddod i gasglu eich plentyn. Mewn achosion o fethu cael gafael ar riant, fe fyddwn yn cysylltu â'r rhifau ffôn eraill y byddwch wedi eu rhoi i ni. **Gofynnwn i chi gysylltu â ni yn syth pan fo rhifau ffôn/cyfeiriad yn newid.**

## Meddyginiaeth
Ni chaniateir i ddisgyblion gadw moddion o unrhyw fath. Os oes rhaid i blentyn gymryd moddion dan **bresgripsiwn** yn ystod y diwrnod ysgol, mae'n **ofynnol** i chi lenwi ffurflen gais meddyginiaethau. Mae'r rhain ar gael o'r swyddfa neu ar-lein.

Ni fydd unrhyw aelod o staff yn gweinyddu moddion i blentyn oni bai eich bod wedi gwneud trefniant arbennig gyda'r ysgol. Rhaid sicrhau bod pob eitem wedi'i labelu'n glir gydag enw'r plentyn.



## Llau Pen
Rydym yn dilyn canllawiau'r Awdurdod Iechyd ac yn gofyn i chi:

- gadw eich plentyn gartref nes eich bod wedi trin y llau
- ein hysbysu o'r haint er mwyn i ni hysbysu'r rhieni eraill bod achos yn y dosbarth
- Os bydd eich plentyn yn dioddef o lau pen yn yr ysgol fe fyddwn yn cysylltu â chi er mwyn ei g/chasglu a'i d/thrin.

## Asthma
Mae'n ofynnol i riant sicrhau bod plant sy'n dioddef o'r anhwylder yma yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r sugnydd heb gymorth oedolyn. Dylai'r sugnydd gael ei labelu'n glir ag enw'r plentyn. Mae'r plant yn cael y rhyddid i ddefnyddio'r sugnydd yn ôl y galw. Dylai nodyn ynglŷn â'i ddefnydd gael ei anfon i'r ysgol.

## Alergedd
Os yw eich plentyn yn dioddef o unrhyw alergedd lle mae angen triniaeth sydyn, dylid hysbysu'r ysgol cyn gynted ag y bo modd. Rydym yn cydweithio yn agos â thîm meddygol y Sir. Mae rhai disgyblion yn dioddef o alergedd cnau difrifol yn yr ysgol. **Nid ydym yn caniatáu cnau o unrhyw fath yn yr ysgol.**

## Wythnosau Cyntaf

Byddwch yn amyneddgar yn ystod yr wythnosau cyntaf, tra bod eich plentyn yn ymgartrefu yn yr ysgol.

Os ydych yn poeni o gwbl, yna ffoniwch. Rydym yn deall ei bod hi'n amser anodd i'r plentyn a'r rhiant!

Os bydd eich plentyn yn anhapus, gadewch i ni wybod. Rydym yma i helpu. Cedwir popeth yn gyfrinachol.

**COFIWCH**
Y peth pwysicaf y gallwch wneud yw siarad â'ch plentyn. Chi yw'r person pwysicaf yng ngolwg y plentyn.

Chi yw'r un sy'n dylanwadu ar y ffordd mae eich plentyn yn teimlo, meddwl ac ymddwyn. Gweithiwn gyda'n gilydd i sicrhau'r gorau i'ch plentyn.






## Sut allai gynorthwyo fy mhlentyn?

### Ceisiwch ddysgu eich plentyn i:

- ddefnyddio'r tŷ bach yn annibynnol
- olchi a sychu dwylo ar ôl defnyddio'r tŷ bach
- ddefnyddio hances i sychu trwyn
- rannu ag eraill
- aros ei d/thro
- ddefnyddio cyllell, fforc a llwy.

### Ceisiwch helpu'r athrawon drwy:

- Labelu popeth – dillad, cotiau, esgidiau a bagiau
- Ddysgu eich plentyn i wisgo a dadwisgo'n lled annibynnol.
- Beidio â gadael eich plentyn wisgo gemwaith na dod â theganau i'r ysgol
- Helpu eich plentyn i adnabod ac ysgrifennu ei enw/ henw'n gywir. Defnyddiwch briflythyren ar gychwyn yr enw'n unig
- Roi cyfleoedd i'ch plentyn ddefnyddio digon o offer creadigol e.e. creonau, pensiliau, papur, glud, siswrn a phaent
- Wylio rhaglenni addas gyda'ch plentyn e.e. Cyw ar S4C
- Chwarae gemau ar apiau Cymraeg e.e. Cyw, Tric a Chlic, Magi Ann.

## Trochi Iaith

Yn Ysgol Treganna rydym yn cyflwyno'r iaith Gymraeg i'r disgyblion drwy ddefnyddio'r dull trochi iaith.

**Beth yw dull trochi iaith?**

- Ffordd o gyflwyno iaith newydd yw'r dull trochi iaith
- Y Gymraeg yn unig sy'n cael ei defnyddio gan staff yn y dosbarth ac ar yr iard chwarae
- Mae'r plant yn dysgu iaith newydd yn y modd y maent yn dysgu iaith y cartref, drwy glywed yr iaith o'u hamgylch a'i defnyddio wrth gael profiadau newydd.





## Tric a Chlic

**Beth yw Tric a Chlic?**

Cynllun ffoneg i'r Cyfnod Sylfaen sy'n addysgu'r sgiliau a fydd yn sail i addysgu darllen. Mae'r cynllun yn:

- addysgu sŵn a ffurf llythrennau
- addysgu strategaethau adeiladu i ddarllen geiriau a thorri geiriau i'w sillafu
- annog rhuglder a mynegiant wrth ddarllen o'r dechrau un
- cynnig dulliau addysgu rhyngweithiol
- atgyfnerthu'r camau yn rheolaidd
- symud yn gyflym o un cam i'r llall.

Tric a Chlic Songs

Tric a Chlic App

**Cylchlythyr wythnosol ar eich ffôn symudol**

Defnyddiwch yr ap 'GroupEd' i dderbyn y cylchlythyr a'r cyswllt wythnosol.

**Pwysig:**
Rhaid hysbysu'r ysgol am unrhyw newidiadau i'ch rhif/rhifau ffôn a chyfeiriadau ebyst.





**Gwybodaeth Ychwanegol**

**Gwahoddiadau parti**
Ni fydd staff yr ysgol yn dosbarthu gwahoddiadau partïon.

**Tywydd braf**
Yn ystod tywydd braf gofynnwn i'ch plentyn wisgo het haul ac eli haul. Ceisiwch ddysgu eich plentyn sut i daenu eli haul ymlaen yn annibynnol.

**Trefnu cyfarfod**
Os oes angen trefnu cyfarfod gydag athro/athrawes ddosbarth eich plentyn gofynnwn yn garedig i chi drefnu hyn drwy'r swyddfa.

**Tripiau**
Gofynnwn am gyfraniad gwirfoddol tuag at dripiau ysgol. Mae'n bosib talu drwy ap GroupEd. Cofiwch hysbysu athro/athrawes eich plentyn os ydych ar gael i helpu gydag unrhyw dripiau.



ysgoltreganna@caerdydd.gov.uk
@YsgolTreganna

## Ysgol Treganna

Heol Sanatorium
Treganna
Caerdydd
CF11 8DG

Dylunio: elfen.co.uk

